

BEIRNIADAETH RHYDDIAITH

RHIF 374 - BLWYDDYN 2 AC IAU – ‘YN YR EIRA’

Beirniad – Sian Mererid

Diolch i'r 40 fu'n cyfansoddi ar destun poblogaidd ac i'r rhai fu'n annog yn ystod y broses o greu.

Roeddwn yn chwilio am syniad gafaelgar, cywirdeb iaith, ond yn bennaf, gwreiddioldeb a naturioldeb.

Mwynheais bori drwy'r cynhyrchion ac mae rhywbeth i'w gymeradwyo ym mhob ymgais. Dangosodd amryw ddawn disgrifio gyda'r goreuon yn ddychmygus iawn. I'r dyfodol, gallai rhai geisio paragraffu, gosod deialog yn gywir a gwylio'r treiglo.

Cafwyd darluniau cofiadwy – o gawodydd bygythiol i hwyl y slejio, herio'r arth wen, 'steddfod yn yr eira ac yfed galwyni o siocled poeth i gynhesu !

Yn agos roedd Liwsi, Rwdolff, Unicorn Pinc, Iori a dyma'r buddugwyr :

3ydd: Robin Goch (374/15) – Ymgais ganmoladwy, gwaith cywir a llawysgrifen ddestlus. Hanes cwmp coeden a cholli Pyj y ci. Cyfleu'r cyffro drwy'r cwestiynu a'r cyffelybiaethau e.e. *Dad yn flin fel tarw a'r dagrau'n llifo fel rhaeadr*. Da iawn.

2il: Perfformwraig Fach (374/3) – Stori orau'r gystadleuaeth. Cydiodd ynof o'r darlleniad cyntaf. Ysgrifennu egniol a chynnes am achub oenig o'r eira. Disgrifiadau manwl a chyffelybiaethau addas e.e. *ar y sled lan a lawr fel tonnau ar y môr*. Digon o amrywio brawddegau, deialog realistig a pheth hiwmor. Byddai'n uwch o ran safle onibai am y llithriadau treiglo. Potensial yma.

1af: Y Ladi Wen (374/24) – Ysgrifennu dychmygus, annwyl sy'n cynnal diddordeb. Cynllun trefnus yn datblygu'n dda. Hanes teulu o wiwerod sy'n brin o fê, a'u perthynas gyda Hari'r ffermwr. Llwydda i gyfleu syndod drwy ddefnydd o brif lythrennau ac ebychnod. Mae saerniaeth dda i'r brawddegau e.e. *Sleifiodd y wiwerod a'r cymeriadu'n gryf*. Llongyfarchiadau!